RYDYM YN RHOI GRYM I BOBL
A CHYMUNEDAU I GREU
NEWID POSITIF

GWEITHDAI A HYFFORDDIANT

I WEITHWYR PROFFESIYNOL

DADANSODDI DATA FIDEO A CHYFRYNGAU
CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
RHEOLI CMS CYFRIFIADURO CWMWL

ProMo-Cymru,
17 Stryd Gorllewin Bute,
Caerdydd CF10 5EP

029 2046 2222
arielle@promo.cymru
www.promo.cymru
@promocymru

PWY YDYM NI?

Mae **ProMo-Cymru** yn elusen gofrestredig a menter gymdeithasol sydd wedi esblygu, datblygu ac amrywio dros y 30 mlynedd diwethaf, gan gadw'n ffyddlon at ein hegwyddorion o weithio mewn cydweithrediad.

Ein bwriad ydy '**rhoi grym i bobl a chymunedau i greu newid positif**'.

Yn ogystal â'n gallu technegol a'n profiad helaeth, rydym yn credu ein bod yn cynnig rhywbeth unigryw yn y ffordd rydym yn ymdrin â'n prosiectau; ffordd unigryw a sensitif o gysylltu. Rydym yn gweithio mewn ffordd gydweithredol i sicrhau bod y sgiliau mwyaf perthnasol yn cael ei roi i'ch prosiect.

Mae ein staff yn weithwyr ieuenctid cymwysedig yn ogystal â meddu cymhwyster **PTTLS** (Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes). Mae hyn yn cynnig dealltwriaeth unigryw o sut i gysylltu orau â phobl, eu helpu i deimlo'n fwy cyffyrddus a hyderus, yn ogystal â gweithio gyda nhw i fwynhau'r broses a dysgu drwy gyfranogiad gweithgar.

GELLIR TEILWRO POB CWRS I FOD YN BERTHNASOL I'CH SEFYDLIAD AC I WEDDU EICH ANGHENION.

DADANSODDI DATA GOOGLE

Dod i ddeall nodweddion allweddol Google Analytics yn dda a monitro llwyddiant eich gwefan yn gywir.

Dysgwch sut i ddadansoddi data eich gwefan - o'r nifer o ddefnyddwyr sydd yn ymweld ac ar ba ddyfais, i ba dudalennau sydd yn cael y nifer uchaf o ddefnyddwyr a pa rai sydd yn achosi defnyddwyr i adael.

Cewch gyfle hefyd i greu Nodau a Throsiadau gellir eu tracio, yn ogystal â chreu adroddiadau awtomataidd, wedi'u teilwro, yn gyrru gwybodaeth allweddol yn syth i'ch e-bost.

LEFEL: Canolradd

HYD: Hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn

COST: £750 diwrnod llawn / £400 hanner diwrnod (hyd at 10 person)

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL EFFEITHIOL

AR GYLLIDEB NESAF PETH I DDIM

Trefnu negeseuon cyfryngau cymdeithasol; creu delweddau, ffeithluniau ac arolygon; a defnyddio gwybodaeth i gynyddu nifer o Ddilynwyr/Hoffi Tudalen.

Dysgu sut i ddenu sylw ar-lein, arbed amser a bod yn fwy effeithiol, hyd yn oed ar gyllideb dynn. Darganfod teclynnau newydd i greu delweddau trawiadol, ffeithluniau deniadol ac arolygon hwyl.

LEFEL: Cychwynnwr

HYD: Hanner diwrnod

COST: £400 hanner diwrnod (hyd at 10 person)

“I elusen o’n maint ni, roedd cynnwys y cwrs yma yn ddefnyddiol iawn... nid oes gennym aelod o staff arbennig i redeg ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol a bydd hyn yn help mawr.”

Sarah, Jacob’s Foundation

FIDEO A CHYFRYNGAU: SUT I GREU CYNNWYS COST ISEL, EFFEITHIOL

Creu cynnwys cyfryngol HD deniadol ac isel ei gost ar gyfer gwefannau, sianeli cyfryngau cymdeithasol neu gyflwyniadau.

Defnyddio ffonau clyfar a llechi i greu cynnwys deniadol gellir ei rannu'n hawdd ar-lein, gan ddefnyddio gwahanol raglenni arloesol ar-lein sydd am ddim. Mae hyn yn cynnwys fideos HD byr, lluniau wedi'u hanimeiddio, a phosteri.

LEFEL: Cychwynnwr

HYD: Hanner diwrnod

COST: £400 hanner diwrnod (hyd at 10 person)

"Roedd yn fewnweledol iawn ac roedd y brwdfrydedd am greadigaeth yn heintus. Roedd deunyddiau wedi'u paratoi er mwyn i ni greu darn byr gallem ei lwytho i fyny yn syth. Diolch i chi am eich hyfforddiant wedi'i deilwro a'r amser buddsoddwyd i sicrhau bod elfennau defnyddiol ac ymarferol yn dod o'r amser treuliwyd yn y gweithdy."

Martha-Jane, Iechyd Cyhoeddus Cymru

RHEOLI CMS:
CREU ERTHYGLAU DENIADOL A CHYNNAL GWEFAN PROFFESIYNOL

Cynnwys yw'r peth pwysicaf. Mae'n pweru pob rhyngweithiad ar-lein. Gyda rhywbeth i ddweud ond ddim yn gwybod sut i wneud hynny? Gallem helpu. O ysgrifennu deniadol, i ddarganfod a defnyddio delweddau atyniadol am ddim, bydd ein cwrs yn sicrhau bod eich gwefan yn llawn pethau bydd eich cynulleidfa eisiau ei ddarllen.

Ynghyd â chynnwys deniadol ac ysgrifennu mewn ffordd sydd yn gyfeillgar i **SEO** (fel eich bod yn dod yn uwch mewn chwiliadau **Google**), byddem yn dangos i chi sut i reoli'ch system rheoli cynnwys a gweithredu canllaw arddull er mwyn creu edrychiad cyson a phroffesiynol.



LEFEL: Cychwynnwr

HYD: Hanner diwrnod

COST: £400 hanner diwrnod (hyd at 10 person)

MYNEDFA I'R CWMWL

Darganfod buddiannau defnyddio storfa cwmwl ar-lein fel **Google Drive, Office 365** a **Dropbox** - o weithio cydweithredol ar y pryd i arbed wrth gefn a hanes adolygu.

Dysgwch sut i wneud y gorau o declynnau prosesu geiriau yn y cwmwl (fel **Word Online**, **Google Docs** a **Dropbox Paper**), defnyddio ffolderi tîm i rannu dogfennau ac arbed gwaith ar-lein, fel y gellir cael mynediad iddo o unrhyw gyfrifiadur, llechan neu ffôn clyfar wedi'i gysylltu i'r we.

Bydd arddangosiadau ac ymarferiadau ymarferol yn y bore, ac yn y pryn-hawn byddem yn dechrau gosod y cwmni yn y cwmwl (cwrs diwrnod llawn yn unig).

LEFEL: Cychwynnwr

HYD: Hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn

COST: £750 diwrnod llawn / £400 hanner diwrnod (hyd at 10 person)